# Dyma ni!





Athrawes: Mrs Phillips





HTLA:Mrs Hughes

Cynorthwyydd:Miss Currado

Bwriad y dudalen hon yw i roi blas i chi o'r hyn sy'n digwydd yn y dosbarth.

Yn ystod y flwyddyn yma bydd dosbarth 'Sêr y Môr' yn astudio llawer o wahanol themau a fyddwn yn annog y plant I arwain y dysgu o fewn meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru.



Amcan y Blynyddoedd Cynnar yw cyfoethogi'r profiadau dysgu sy'n galluogi'r disgyblion i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl wrth ddysgu. Caiff plant fwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas trwy weithgareddau strwythuredig bydd yn eu hysgogi a'u hannog i fod yn ddysgwyr effeithiol ac annibynnol.

## Darllen

Rydym yn defnyddio rhaglen 'Tric a Chlic' er mwyn dysgu'r disgylion strategaethau er mwyn dysgu darllen. Rydym yn ceisio darllen gyda'r disgyblion yn aml yn yr ysgol ond yn annog rieni i ddarllen adref gyda'r plentyn yn ddyddiol.

Dyma linc i chi i wrando ar llyfrau sain gyda'ch plentyn adref.

https://drefwen.com/pages/free-welsh-audio-books

Addysg Gorfforol –

**Dydd Iau** - Mae angen i blant ddod â siorts / trowsus tywyll, crys-t (lliw eu tîm yn ddelfrydol), siwmper ac esgidiau priodol (treinars) pob Dydd Iau. Gellir prynu cit addysg gorfforol yr ysgol wrth Tees R Us, New Hedges, Dinbych-y-Pysgod.



Dydd Mercher Mwdlyd

Bydd angen i'r disgyblion i ddod â dillad ac esgidiau addas er mwyn mwynhau'r profiad yn iawn. Cyfle i'r disgyblion i fwynhau dysgu yn yr awyr agored yw hwn. Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymweld â'r goedwig sydd ar waelod cae'r ysgol, mynd lawr i'r traeth, ymweld â'r dref a mwynhau yn y parc chwarae lleol. Mae gennym rai siwtiau awyr agored (all-in-one), fodd bynnag, gofynnwn yn garedig i rieni geisio brynu siwt awyr agored i'w plentyn neu sicrhau bod ganddynt hen ddillad i'w gwisgo. Mae esgidiau glaw hefyd yn bwysig iawn!



**Beth am canu caneuon cyw cliciwch ar y linc i wrando;**

Dyddiau'r wythnos - https://www.youtube.com/watch?v=EjSFKgGkSXs
Cyfri ar y bws - https://www.youtube.com/watch?v=4DleEEIpjmo
Caru canu i mewn i'r arch a nhw - https://www.youtube.com/watch?v=BW2LFWkKhc8
Caru canu adeiladu tŷ bach - https://www.youtube.com/watch?v=UYYRQLE2xCU